# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 10/11/15, Ysgol Nefyn

---

Presennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Bleddyn Evans | Alan Jones | Huw Williams |
| Guto Williams | Sian Hughes | Catrin Roberts | Gruffydd Williams |
| Glesni Jones (Clerc) | Sharon Williams | John Thomas | Megan Williams |

1. *Ymddiheuriadau*

   Ashley Hughes   Dafydd Rhun

2. *Datgan buddiant ariannol neu personol*

   Arfon Hughes – Cais Cynllunio C15/1049/42/LL

   Glesni Jones – Cais Cynllunio  C15/1049/42/LL

3. *Cofnodion 13ed o Hydref 2015*

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. *Llwybr saff i'r Ysgol*
   Gruffydd Williams wedi derbyn dyfynbris o £17,000.00 + er mwyn goleuo'r llwybr saff i'r Ysgol. Ddim yn siŵr ar hyn o bryd os fydd arian a'r gael. Mae'r cais wedi ei basio at Dylan Wyn Jones

5. *Cronfa Cymunedau Arfordirol*
   Gruffydd Williams wedi cyfarfod gydag Wyn Williams er mwyn roi 'Section 26' ar Wenolfa, Tŷ Pennig a Bwthyn Gwyn, gan fod rhai perchnogion wedi bod yn gyfyngol ar y mater. Mae'r llwybr yma wedi bodoli ers blynyddoedd, y gwaith fydd yn mynd ymlaen bydd ail agor be oedd yna yn wreiddiol.
   Llwybr Nefyn-Abersoch –Llanbedrog  Mae David Harden yn disgwyl iawndal oddeutu £4000.00 am ail agor y llwybr
   Mae Dewi Owen, hawliau Tramwy wedi datrys y broblem gyda llwybr Fron Dirion.

6. *Cae aml-ddefnydd*
   Gweithredoedd wedi dod i'r fei. HSBC Pwllheli yn dal gweithredoedd y Cyng.Gruffydd Williams ar Glerc wedi trefnu cyfarfod gyda'r banc er mwyn cael gweld beth yw'r gweithredoedd sydd ganddyn, gweithredoedd Cof Golofn sydd yno. Wedi cael copïau o weithredoedd Bryn Mynach gan Dafydd Rhun gan eu bod yn cael ei gadw gan Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd ym Mhwllheli'r cwmni mae'n gweithio i. Mae copïau gyda'r cyfansoddiad nawr wedi ei basio i Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn, Mantell Gwynedd a Chist Gwynedd.

7. *Wal Mynwent Nefyn*
   Robin Owen wedi cytuno i gyfarfod er mwyn datrys y broblem gyda'r wal sydd wedi disgyn tu ôl i'w garej. Fydd y cyfarfod yma yn mynd ymlaen pan fydd ei iechyd wedi gwella.

8. *Siop Siarad*
   Mae yr Heddlu eisiau llun o blant yr ardal yn defnyddio'r fenter gan eu bod nhw wedi cyfrannu at ddodrefn i'r siop. Bydd angen llythyr caniatâd wedi ei arwyddo gan riant/gwarchodwr pob plentyn yn gyntaf, mae Alan Jones am yrru copi o'r ffurflen maent yn ei ddefnyddio yn yr ysgol. Gobeithio erbyn diwedd y mis bydd wedi cael gwirfoddolwyr yn ei lle i weithio yn y siop, mae grŵp Llandrillo Menai (Coleg Meirion Dwyfor) wedi cynnig 36 awr yr wythnos. bydd hyn wedyn yn galluogi'r siop fod yn agored yn hwyrach. Bydd dau weithiwr TG (Technoleg Gwybodaeth) yn dod i roi hyfforddiant yn y dyfodol. Hefyd mae system CCTV yn cael ei osod yn y siop.

9. *Gwellianau i siop Glynllifon / Hen Spar Nefyn*

   Mae Cyng. Gruffydd Williams yn disgwyl i gyfarfod gydag aelod o staff Blakemore er mwyn gweld os yn bosib symud ymlaen i adnewyddu'r siop.

10. *Parti Calan Gaeaf*
    Angen gyrru llythyr i Liz Jones i ddweud diolch am drefnu'r cyfraniad o £300.00 i gynnal y parti.

11. Ymddiheuro – Dim rhif 11 ar yr agenda, symud ymlaen.

12. *Coeden Nadolig Nefyn*
    Cwmni Atkins sydd yn gosod coeden ym Morfa Nefyn, Robert Jones sydd yn trefnu a hefyd y fe sydd yn archebu'r goeden. Bydd y golau yn mynd ymlaen ar y 4ydd o Ragfyr.
    Mae Ashley Hughes ac Elfed Roberts yn archebu'r goeden ac mae Ashley wedi trefnu i gael coeden o Glasfryn. Chris Jones fydd yn gosod y goden eto eleni. Bydd y golau yn mynd ymlaen ar y 27ain o Dachwedd a bydd plant yr ysgol yn canu.
    Huw Williams sydd yn archebu coeden i Edern, bydd y goeden eleni yn cael ei ail leoli wrth ymyl y bont, mae'r adran Cynllunio wedi cytuno i hyn. Bydd y golau yn mynd ymlaen ar y 30ain o Dachwedd.Sedd Wag Edern
    Rhybydd wedi mynd fyny i ethol gynghorydd yn Edern, Nefyn ac Morfa Nefyn.

Mae sedd wag nawr hefyd yn Morfa Nefyn, gan bod Robart Jones wedi ymddiswyddo. Bydd angen cysylltu gyda Cyngor Gwynedd

13. *Archwiliad Allanol*
    Hysbysiad wedi mynd fyny yn siop siarad ynglyn ar cyfrifon

14. *Llwybr ger gors Edern*
    Cyfrifoldeb *y tir feiddanwyr yw hwn, mae Cyng. Sian Hughes am gysylltu gyda Dewi Wyn Owen*

15. *Golau Strey Morfa Nefyn –Stad y Bryn*
    Dim ond un golau stryd sydd yn goleuo'r holl ystâd, mae'n dywyll iawn yn rhai mannau. Y clerc am gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn cael pris am faint fysai'n costio i gael golau ychwanegol.

16. *Palmant Lon Las Morfa Nefyn*
    Y clerc i gysylltu gyda adran Cynllunio ynglyn ar diffyg palmant.

**Ceisiadau Cynllunio**

C15/1049/42/LL – Arfon Hughes ac Glesni Jones wedi gadael yr ystafell. Catrin Roberts am ysgrifennu i'r Adran Cynllunio.

Amgueddfa Forwrol Nefyn – Gwaith dymchwel ac ai-godi wal gynnal – Dim gwrthwynebiad

Gwaith tocio coed i goed sydd dan orchymyn gwarchod coed – 69 Bro Gwylwyr Nefyn – Dim gwrthwynebiad.

**Gohebiaeth**

**19.0** Cyngor Gwynedd – Newid giat ger Glanfadryn
**20.0** Cyngor Gwynedd – Cyfri y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2015.
**21.0** Un Llais Cymru – Adolygiad o Arian Grant Refeniw i Gynghorau Cymuned a Thref
**22.0** Un Llais Cymru – Canllawiau Pensiwn
**23.0** Rali Goffa James Trenholme
**24.0** Llywodraeth Cymru – Newyddion diweddaraf i Gynghorau Cymuned a Thref gan Llywodraeth Cymru
**25.0** Un Llais Cymru – Ombwdsmon Llyfr Achosion Rhifyn 22
**26.0** Rhwydwaith Busnes Gwynedd – Gwrthwynebiad Cyngor Gwynedd i gau adrannau cefnogi twristiaeth a busnesau
**27.0** Bapur Gwyrdd: Llywodraeth Cymru'n gofyn am farn ar wasanaethau iechyd yng Nghymru

**28.0** Ramblers Cymru- Llwybrau i bobl
**29.0** Ymgynhoriad Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd.

**Ceisiadau am Gyfraniad.**

*BritishRedCross – i'w ychwanegu at gyfarfod diwedd flwyddyn ariannol*
*Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen - i'w ychwanegu at gyfarfod diwedd flwyddyn ariannol*
*Marie Curie – i'w ychwanegu at gyfarfod diwedd flwyddyn ariannol*

*Pared Dewi Sant Pwllheli – i gyrfanu yr un swm a flwyddyn diwethaf*
*Amgueddfa Forwrol Nefyn – angen gweld copïau o'u cyfrifon yn gyntaf – Dim trafodaeth wedi bod yn datgan y bysa'r Cyngor yn eu digolledu os byddai colled ar y ddrama.*

Taliadau – Caniatad wedi ei roi i'r Clerc dalu'r isod.

- Cyflog Simon Jones £1667.17 a PAYE £665.96
- Cyflog y clerc a PAYE £520.00, £130.00
- *Dunn & Ellis - £54.00 – Gwasanaeth Cyflogau, Gorffennaf – Medi 2015*
- *Medi-Tec Ltd - £1702.80 Defibulator Cabinets*
- Mr C Hughes £1186.00
  Contract Llwybrau a gwaith ychwanegol
- *John Gwynfor - £400.00*
- *S.J. & S.Williams Ltd £16453.82*
- *Robyns Owen £386.00*

- *Taliad wedi ei dderbyn £2056.00 i Bwyllgor Cae Chware Bryn Mynach*

CYFARFOD NESA 10fed o Ragfyr – Siop Siarad Nefyn